**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**23-09-08**

**Presennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Keith Greenly-Jones, J.R. Jones, Linda W. Jones, W. Tudor Owen, Gwilym Euros Roberts a'r Cynghorwyr Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn) a Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), Dilys Phillips (Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau), Nia Jones (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

<u>Croeso</u>
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2008 fel rhai cywir.

**3. CYNHADLEDD BUDDSODDI LGC, CASNEWYDD – 4/5 MEDI 2008**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau i'r Cynghorwyr Trefor Edwards, J.R. Jones ac yntau fynychu'r gynhadledd uchod. Cyfeiriodd at y cyflwyniadau diddorol a gafwyd yn ymwneud â sefyllfa'r economi a'i oblygiadau i fuddsoddwyr; a ddylid buddsoddi mewn bondiau cwmniau; a ddylid defnyddio meincnodau sydd wedi eu pwyso yn erbyn y farchnad a'r peryglon sy'n cuddio wrth i oes bywyd aelodau ymestyn.

O ran yr economi, hysbysodd i un siaradwr nodi ei fod o'r farn tra bod y sefyllfa economaidd yn fregus ac y gwelwyd yr economi'n arafu'n sydyn, 'roedd nifer o sylwebyddion yn awgrymu y byddai'n gwella'n raddol a bod ecwiti yn edrych yn rhad ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd nad oedd ecwiti am gynnig y dychweliadau parhaus da y gwelwyd yn hanesyddol gan awgrymu y dylai cronfeydd ystyried edrych at ddosbarthiadau asedau amgen.

O ran buddsoddi mewn bondiau cwmniau, nododd siaradwr arall bod amrediad eang o ddychweliadau ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd ac y dylai polisi o reoli bondiau yn weithredol ganiatau i gronfeydd gymryd mantais o'r amrediad hwn. Gofynnodd y pwyllgor eisoes i'r ymgynghorydd am bapur ar gyfer ceisio buddsoddi bondiau ar sail gweithredol a chyflwynir y papur hwnnw i'r pwyllgor yn ystod mis Tachwedd 2008.

Nododd cynrychiolydd o Legal & General bod meincnodau gwahanol i'r meincnod arferol sy'n rhoddi pwysau yn ôl gwerth marchnad pob cwmni. Er mai rheolwr buddsoddi goddefol yw Legal & General cafwyd gwybodaeth bod 50% o Gronfeydd Sector Preifat yn cael eu buddsoddi trwy ddulliau goddefol tra mai dim ond 20% o asedau'r sector gyhoeddus oedd yn cael eu buddsoddi felly. Tua 35% yw ffigur Cronfa Gwynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4. ADOLYGU'R DATGANIAD CYDYMFFURFIAD Â'R DREFN LYWODRAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau yr adolygodd y pwyllgor yn Ebrill 2006 y Datganiad Polisi Llywodraethu ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori, cytunwyd i gael cynrychiolydd di-bleidlais o Gynghorau Môn a Conwy yn rhan o'r pwyllgor.

Hysbysodd y cyhoeddwyd rheoliadau newydd ym Mai 2007 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol gyhoeddi yn y Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Lywodraethol i ba raddau y cydymffurfir â'r naw o egwyddorion ymarfer gorau a gyhoeddwyd mewn ffurf drafft gan yr Adran Gymunedol a Llywodraeth Leol ar 8 Hydref 2007. Os na chydymffurfir â'r egwyddorion, 'roedd yn ofynnol nodi'r rhesymau pam. Wrth baratoi'r datganiad 'roedd yn rhaid i'r awdurdod gweinyddol ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun a gyda unrhyw bersonau eraill yr ystyrir yn addas. Wrth lunio'r ymateb gwreiddiol nid oedd y pwyllgor yn fodlon cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau ond derbyniwyd bod angen cael mynediad ehangach i wybodaeth yn ymwneud â rheolaeth y gronfa. Yr unig ffordd i sicrhau hyn a chydymffurfio ag ymarfer da fyddai sefydlu ail bwyllgor yn cynnwys rhanddeiliaid eraill fyddai'n cysgodi ac yn derbyn yr holl wybodaeth a roddir i'r prif bwyllgor. 'Roedd y pwyllgor blaenorol yn ystyried bod hyn yn dyblygu ymdrechion yn ormodol ac yn hytrach na hynny awgrymwyd cynnal cyfarfodydd anffurfiol o randdeiliaid yn achlysurol er mwyn rhoddi'r cyfle iddynt dderbyn gwybodaeth a lleisio barn. 'Roedd o'r farn na fyddai hynny'n cydymffurfio ag ymarfer da gan na fyddai'n rhoddi cyfle i grŵp ehangach o randdeiliaid gymryd rhan yn y broses cymryd penderfyniadau.

Mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol o ran cydymffurfiad, hysbysodd mai'r man allweddol lle nad yw Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydymffurfio â'r egwyddorion yw –
a) Strwythur a chynrychiolaeth ar y pwyllgor -
Nodai'r canllawiau y dylai pob rhanddeiliaid allweddol gael cynnig y cyfle i gael eu cynrychioli ar strwythur y prif neu'r ail bwyllgor, unai gyda hawl neu heb hawl pleidleisio. Mae rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys -
i) Awdurdodau cyflogi gan gynnwys cyrff a ganiateir
ii) Aelodau'r cynllun gan gynnwys aelodau gohiriedig a phensiynwyr y cynllun.
iii) Sylwedyddion proffesiynol annibynnol
iv) Ymgynghorwyr arbenigol ar sail ad-hoc.
Nododd, tra bod y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys un cynrychiolydd yr un o Gynghorau Môn a Conwy, nid yw'r cyrff a ganiateir, aelodau'r cynllun na phensiynwyr yn cael eu cynrychioli. Nid oes sylwedydd proffesiynol annibynnol ar y pwyllgor chwaith.

b) Dewis aelodau lleyg a'u swyddogaeth o fewn y pwyllgor -

Caiff aelod lleyg ei ddiffinio fe “rhywun nad yw’n aelod etholedig”. Nid oes aelodau lleyg ar y Pwyllgor Pensiynau.

Mewn perthynas â’r opsiynau, cyfeiriodd at y ffaith y gallai’r pwyllgor ddatgan nad yw am gydymffurfio â’r hyn sy’n cael ei ddatgan sy’n ymarfer gorau, ond awgrymodd y byddai angen rheswm da tros wneud hynny. Seiliwyd penderfyniad blaenorol y pwyllgor ar y sail mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfreithiol gyfrifol am faterion yn ymwneud â’r gronfa ac ‘roedd yn bwysig felly iddynt gadw rheolaeth tros y penderfyniadau terfynol. Nid oedd dyblygu ystyriaethau’r pwyllgor drwy sefydlu pwyllgor arall cysgodol gyda’r gofynion gweinyddol ychwanegol y byddai hynny’n ei olygu yn ddefnydd priodol o adnoddau. Fodd bynnag, derbyniwyd yr angen i ymestyn dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Gwynedd ymysg cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill a phenderfynwyd yr adeg hynny y dylid cynnal cyfarfodydd anffurfiol o bryd i’w gilydd gyda’r holl rhanddeiliaid eraill. Nid yw’r penderfyniad hwn yn cydymffurfio ag ymarfer da oherwydd nad yw’n caniatau’r cyfle i randdeiliaid eraill fod yn rhan o’r broses penderfynu. Yr unig ffordd y gellid cywiro hyn fyddai sefydlu ail bwyllgor ffurfiol i gysgodi’r pwyllgor presennol neu gynyddu aelodaeth y prif bwyllgor.

Nodwyd y gellid cynyddu aelodaeth y prif bwyllgor unai drwy ganiatau hawliau pleidleisio neu beidio. ‘Roedd o’r farn y byddai cynyddu aelodaeth i 13 gan roddi un lle yr un i’r undebau a phensiynwyr a dau le dyweder i gyflogwyr eraill yn cydymffurfio ag ymarfer da ac y byddai modd gwarchod diddordebau’r Cyngor drwy’r rheolau galw mewn presennol. Os y penderfynir cynyddu aelodaeth y pwyllgor, byddai angen hefyd adolygu’r trefniadau ar gyfer monitro rheolwyr buddsoddi, o bosibl drwy sefydlu is-bwyllgor a hefyd parhau gyda’r egwyddor o gynnal cyfarfodydd anffurfiol yn achlysurol gan wahodd swyddogion neu aelodau’r holl randdeiliaid i fynychu.

Nododd hefyd ers i’r cyn-bwyllgor benderfynu ar ffurf derfynol y Datganiad Cydymffurfio â’r Drefn Lywodraethol, ychwanegwyd dau gymal ychwanegol at y rheoliadau a bydd angen i’r pwyllgor eu cymeradwyo.

Hysbysodd y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd os y penderfynir cynyddu aelodaeth y pwyllgor nid oes hawl gan y pwyllgor hwn i newid rheolau cyfansoddiadol y Cyngor ond yn hytrach byddai’n rhaid cyflwyno’r mater yn gyntaf i ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ac yna i’r Cyngor. Cyfeiriodd at y ffaith bod aelodaeth y pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnwys saith aelod o Gyngor Gwynedd gyda un cynrychiolydd yr un, heb bleidlais, o Gynghorau Môn a Conwy. Er ceisio cydymffurfio ag ymarfer da, awgrymodd y byddai’n bosibl gwahodd hyd at dri aelod ychwanegol (gyda phleidlais neu heb bleidlais) i eistedd ar y pwyllgor a fyddai’n cynrychioli dyweder, undebau llafur, pensiynwyr a’r cyflogwyr. Fodd bynnag ni chaniateir i aelod o staff Cyngor Gwynedd fod yn aelod o’r Pwyllgor Pensiynau.

**PENDERFYNWYD**

**a) Peidio cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau am y rheswm mai Cyngor Gwynedd sy’n gyfrifol am faterion yn ymwneud â’r gronfa, y byddai’n anodd dewis cynrychiolwyr eraill o blith y cyflogwyr ac y byddai’n fwy anodd herio rheolwyr y gronfa, ond argymell i’r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol y dylid diwygio cyfansoddiad y Pwyllgor Pensiynau er caniatau hawl pleidleisio i’r un cynrychiolydd yr un o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.**

**(Gofynnodd y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a J.R. Jones am gael cofnodi iddynt bleidleisio yn erbyn y penderfyniad.)**
**b) Cymeradwyo'r ddau gymal ychwanegol a ychwanegwyd at y datganiad.**

## 5. AMSERLEN AR GYFER PENODI RHEOLWR BUDDSODDI NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau ar yr amserlen ar gyfer penodi Rheolwr Buddsoddi Newydd.

Hysbysodd y Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau Tros Dro y bydd y cyfranddaliadau mae Legal & General yn eu dal ynghyd â'r cyfranddaliadau yng nghronfa marchnadoedd sy'n datblygu cydgyfrannog UBS, yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell ar gyfer y rheolwr ecwiti byd-eang gweithredol newydd – hyn yn dilyn adolygiad o strwythur buddsoddi a rheolwyr y gronfa. Er mwyn penodi rheolwr ecwiti byd-eang gweithredol newydd, mae'n ofynnol i'r gronfa o fewn cyfyngiadau amser cyfreithiol, gwblhau proses tendro ffurfiol. Bydd y broses yn cynnwys pedwar cam sef:-
a) Drafftio a chytuno hysbysiad "Official Journal of the European Union" penodol ar gyfer y gronfa a "Pre Qualification Questionnaire".
b) Dadansoddi ymatebion y PQQ drwy ddefnyddio sgrinio mesurol ac ansoddol i adnabod rheolwyr buddsoddi i'w rhoddi ar y rhestr hir.
c) Anfon "Requests for Proposal" manwl i'r rheolwyr ar y rhestr hir ac yna dadansoddi'r ymatebion.
ch) Rhestr fer o reolwyr i wneud cyflwyniad i'r pwyllgor.

Gan y bwriedir apwyntio'r rheolwr newydd yn fuan yn 2009, drafftiwyd yr amserlen isod gan Hymans Robertson -

| Dyddiad | Gweithred | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Erbyn 18/9/08 | Cyhoeddi hysbysiad tendr OJEU ar wefan SiMAP. | Hymans Robertson (HR) |
| Hyd at 27/10/08 | Anfon PQQ i bob rheolwr sy'n dangos diddordeb. | HR |
| Erbyn 27/10/08 | Dyddiad cau derbyn y PQQ. | HR |
| Erbyn 03/11/08 | Cyhoeddi adroddiad yn dadansoddi ymatebion y PQQ ac argymell rhestr o reolwyr fydd yn derbyn RFP. | HR |
| Erbyn 7/11/08 | Cytuno pa reolwyr fydd yn derbyn RFP. | HR/Gwynedd |
| Erbyn 7/11/08 | Anfon y RFP i'r rheolwyr. | HR |
| Erbyn 19/12/08 | Dyddiad cau derbyn y RFP. | HR |
| Erbyn 7/1/09 | Cyhoeddi adroddiad yn dadansoddi ymatebion y RFP ac argymell rhestr o reolwyr fydd yn cael cyfweliad. | HR |
| Erbyn 13/1/09 | Cytuno pa reolwyr fydd yn derbyn cyfweliad. | HR/Gwynedd |
| Erbyn diwedd Ionawr 2009 | Cynnal cyfweliadau. Cytuno pa reolwr i'w apwyntio. | HR/Gwynedd |

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau at y ffaith y bydd y pwyllgor llawn yn rhan o'r broses tynnu rhestr fer a'r cyfweliad ond heriodd a oeddent yn dymuno bod yn rhan o gytuno pa reolwyr buddsoddi fydd yn derbyn yr RFP.

**PENDERFYNWYD**
**a) Mabwysiadu'r amserlen uchod.**
**b) Awdurdodi'r swyddogion perthnasol mewn ymgynghoriad â Hymans Robertson i gytuno pa reolwyr buddsoddi (cwmniau) fydd yn derbyn yr RFP.**

## 6. CYRFF MYNEDIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar gyrff mynediad (cyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa) yn terfynu aelodaeth a chyrff newydd yn ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Hysbysodd y Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau bod Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn caniatau dau fath o gyflogwr i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sef corff rhestredig e.e. Cynghorau Sir a Dosbarth a.y. a chyrff mynediad a allai, yn ddarostyngedig i rai gofynion, wneud cais i ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Penderfynodd y pwyllgor hwn yn Rhagfyr 2003 ar feini prawf ar gyfer corff mynediad a fyddai'n gwneud cais i ymaelodi â'r cynllun. Bwriad y meini prawf oedd gofalu y byddai cyrff gyda chysylltiadau digonol a chyflogwyr y cynllun yn gallu cyfiawnhau gofyniad y rheoliadau o gael buddiannau cyffredin lle y cyfeirir atynt fel Corff Mynediad Cymunedol(CMC).

'Roedd datganiad polisi Bargen Deg y Llywodraeth, sy'n gosod allan warchodaeth ar gyfer pensiynau staff pe byddent yn symud gyda'u gweithlu o'r sector cyhoeddus i'r sector breifat, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwr ddarparu hawl i staff gael mynediad i gynllun penslwn bras cyffelyb neu i barhau gyda'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac mae angen adolygu'r polisi presennol. Byddai cynllun bras cyffelyb yn darparu na fyddai unrhyw weithiwr canfyddadwy yn dioddef colled materol yn nhermau cronni buddion yn y dyfodol o'i gymharu â phe byddai wedi parhau yn y cynllun sector cyhoeddus.

Diwygiwyd rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gynnwys darpariaeth lle y gallai cronfeydd pensiwn lunio a gwneud cytundebau mynediad â Chorff Mynediad Trosglwyddedig (CMT). Gan bod criterion o greu CMT yn ddisgresiwn gan y cyflogwr sydd eisoes yn gyflogwr yn y cynllun, mae angen math o warchodaeth i'r aelodau staff unigol sy'n gyflogedig gan y gwasanaeth sy'n cael eu trosglwyddo i'r cyflogwr newydd. Pan y cytunai cyflogwr y cynllun i drefniant gyda chwmni preifat sy'n cynnwys trosglwyddo staff dan TUPE, a bod y cwmni preifat hynny, gyda chytundeb y cyflogwr sy'n ildio, a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dewis cael cytundeb mynediad yn hytrach na darparu cynllun sy'n fras gyffelyb mae, ar y cyfan yn symud y penderfyniad i ganiatau neu wrthod mynediad o ddwylo'r awdurdod gweinyddu. O ganlyniad i hyn, dylai'r Cyngor, fel gweinyddwyr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, adolygu ei bolisi presennol fel bod CMT a CMC a greeir o ganlyniad i drosglwyddiad TUPE yn gallu dewis Cytundeb Mynediad cyn belled y byddent yn cyfarfod â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyfeiriodd at y ffaith bod Cwmni Gwastraff Môn Arfon wedi gorffen fel aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 11 Ionawr 2008 pan drosglwyddwyd cyfrifoldebau corfforedig a staff yn gyfrannol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Yn ogystal, bydd Theatr Gwynedd yn rhoddi'r gorau i weithgareddau ar 31 Hydref 2008 ac o ganlyniad yn gorffen fel corff mynediad yng Ngronfa Bensiwn Gwynedd. Bydd y staff cyfredol ar y dyddiad hwn unai yn dod yn bensiynwr neu aelodau gohiriedig yn y gronfa.

Hysbysodd y penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drosglwyddo ei stoc tai i gwmni newydd sef Cartrefi Conwy ar 1 Hydref 2008. Cyflwynodd Cartrefi Conwy, drwy Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, gais i Gyngor Gwynedd am fynediad i Gronfa Bensiwn Gwynedd fel Corff Mynediad Cymunedol er mwyn gwarchod hawliau pensiwn oddeutu 130 o aelodau staff a fyddai'n trosglwyddo dan TUPE ac i ddarparu mynediad agored i staff newydd a benodir. Er nad yn angenrheidiol dan y rheoliadau, llwyddodd Cartrefi Conwy i gael bond i'w warchod yn erbyn blaengaead cynnar ac i gyfarfod costau ymddeol cynnar pe byddai hynny'n digwydd. Bydd Cartrefi Conwy yn etifeddu diffyg cyn wasanaeth y staff fyddai'n trosglwyddo o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn talu'r raddfa cyfrannu cyflogwr gofynnol i dalu am hyn.

Eglurodd y swyddog bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgymryd â phroses dendro mewn perthynas â'i wasanaeth arlwyo ysgolion a oedd yn flaenorol yn cael ei ddarparu gan Adran Gwasanaethau Masnachol Cyngor Gwynedd. Dyfarnwyd y cytundeb i Eden Food Services, is-gwmni i Initial Catering sydd, gyda chymeradwyaeth Cyngor Sir Ynys Môn, wedi gwneud cais i gael statws Corff Mynediad yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer oddeutu 120 o staff a drosglwyddwyd dan TUPE. Trosglwyddwyd y gwasanaeth ar 1 Medi 2008, ond o ganlyniad i Gronfa Bensiwn Gwynedd gael gwybodaeth am y broses dendro yn hwyr, nid oedd yn bosibl casglu'r wybodaeth actiwaraidd mewn amser ar gyfer 1 Medi 2008. Cesglir y data hwn ar hyn o bryd ar gyfer ei anfon i'r actiwari. Yn y cyfamser, gweithredir graddfa cyflogwr interim ar gyfer gweithwyr Initial Catering a seiliwyd ar raddfa cronni dyfodol gwasanaeth y gronfa. Cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn i drosglwyddo hawliau pensiwn cronedig ei staff ar sail 100% cronnus. Trosglwyddir y diffygion yn gysylltiedig ag ôl wasanaeth i Gyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Nodi terfyniad dau Gorff Mynediad yn y Gronfa.**
**b) Mabwysiadu polisi corff mynediad diwygiedig er cymryd ystyriaeth am Gorff Mynediad Trosglwyddedig a Chorff Mynediad Cymunedol a allai drosglwyddo o gyflogwr cyfredol yn y cynllun.**
**c) Derbyn Cartrefi Conwy ac Initial Catering fel Cyrff Mynediad i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â darpariaethau'r polisi diwygiedig ac yn amodol iddynt gyflawni gofynion y rheoliadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.00am